PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI DIM SMYGU

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|
| 1 Mai 2008 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 1 Mai 2012 | Adolygiad | |
| 25 Tachwedd 2014 | Adolygiad | |
| 16 Mawrth 2023 | Wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 17 Rhagfyr 2019. Adolygwyd 16 Mawrth 2023 |
| 23 Ionawr 2024 | Mân Ddiwygiad ynghylch defnyddio vapes fel rhan o weithgaredd theatraidd | Ddim yn berthnasol |

| Y Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Iechyd a Diogelwch | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 7 Chwefror 2008 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2026

## 1. RHAGARWEINIAD

Cydnabyddir bod mwg baco yn yr amgylchedd yn berygl i iechyd ysmygwyr, a hefyd i bobl nad ydynt yn ysmygu, a hynny trwy ysmygu goddefol. Yn ogystal â chreu perygl i bobl gael clefydau y gellid eu hatal a marw o flaen eu hamser, gall ysmygu hefyd achosi llid ar y llygaid, y gwddf a'r llwybr resbiradu a gwneud y fogfa yn waeth.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd di-fwg i bobl nad ydynt yn dymuno ysmygu na dod i gysylltiad â mwg. Gobeithir hefyd y bydd y Polisi hwn yn annog a hybu iechyd

## 2. DATGANIAD POLISI A'I GWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr y Brifysgol.

Gwaherddir ysmygu yn holl adeiladau'r brifysgol ac mewn cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol neu sydd wedi eu llogi neu eu prydlesu gan y brifysgol.

Gwaherddir ysmygu hefyd ar safleoedd y brifysgol ble ceir mannau ysmygu dynodedig ac o fewn pum metr i holl adeiladau eraill y brifysgol. Ar rai o safleoedd y brifysgol gwaharddir ysmygu ledled y safleoedd hynny.

Gall y Brifysgol hefyd, yn ôl ei doethineb, gyflwyno cyfyngiadau eraill ar ysmygu.

**Mae'r Polisi'n berthnasol i:**

- Yr Holl Staff, Myfyrwyr, Contractwyr ac Ymwelwyr.
- Pob Coleg ac Adran.
- Tir ac Adeiladau'r Brifysgol.
- Cerbydau o eiddo'r brifysgol, neu a brydlesir neu a rentir ganddi.

**Nid yw'r Polisi'n berthnasol i:**

- Tir cyhoeddus neu breifat nad yw'r Brifysgol yn berchen arno nac yn ei reoli.

## 3. Y POLISÏAU CYSYLLTIEDIG Â'R DDEDDFWRIAETH

Yn ogystal â gofynion cyffredinol y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn nodi'r cyfyngiadau ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

At ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniadau isod yn berthnasol:

**Ysmygu:** Gwaherddir defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco wedi ei danio, gan gynnwys sigaréts, pibellau, sigârs a shisha neu ddefnyddio sigaréts electronig (e-sigaréts)[1] neu ddyfais debyg sy'n cynhyrchu anwedd neu fwg gweladwy.

## 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Bydd y brifysgol yn darparu adnoddau digonol i:

a. Atal ysmygu mewn unrhyw weithle.

[1] Oni bai ei fod yn rhan o weithgaredd vape cymeradwy sy'n rhan o gynhyrchiad theatraidd o fewn theatr neu man ymarfer dynodedig. Gweler 6c.

b. Gweithredu mesurau effeithiol i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac eraill y mae ygweithgareddau'r brifysgol yn effeithio arnynt.

## 6. CYFRIFOLDEBAU'R COLEGAU A'R GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Rhaid i bob coleg, ysgol a gwasanaeth proffesiynol:

a. Sicrhau bod staff, myfyrwyr, ac ymwelwyr sydd o dan eu rheolaeth yn cael gwybod am y polisi a'u bod yn ymwybodol o ble y caniateir ysymgu a ble na chaniateir ysmygu.

b. Sicrhau bod yr holl gerbydau perthnasol sydd dan eu rheolaeth i unrhyw raddau yn ddi-fwg ac yn arddangos yr arwyddion sy'n ofynnol.

c. Sicrhau bod y vape fel rhan o gynhyrchiad theatraidd ac o fewn theatr a man ymarfer dynodedig, wedi'i awdurdodi'n benodol gan y Coleg / Gwasanaeth sy'n cyfanheddu ac fe'i gwneir yn glir mai'r cwmni cynhyrchu sy'n gyfrifol amdan y vape a'i gynnwys, a'r cwmni cynhyrchu sydd efo'r cyfrifoldeb amdan reoli ac asesu'r risg.

## 7. CYFRIFOLDEBAU'R STAFF A'R MYFYRWYR

Rhaid i'r holl staff a myfyrwyr gydymffurfio â gofynion y Polisi Dim Ysmygu.

Bydd torri'r polisi yn cael ei ystyried yn drosedd ddisgyblu a bydd ysmygu mewn mannau sydd â risg neu sensitifrwydd uchel, megis labordai, storfeydd neu'n agos at ddeunyddiau fflamadwy, yn cael ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a gellir cymryd camau disgyblu ar unwaith.

Dylid cael gwared â gwastraff sigaréts yn gywir ac yn ystyriol mewn bin gwastraff priodol.

## 8. GORFODI

Bernir bod anufuddhau i'r Polisi Dim Ysmygu hwn yn dramgwydd disgyblu. Bernir bod ysmygu mewn mannau tra sensitif, megis labordai, ystafelloedd storio, neu ger defnyddiau hylosg, yn gamymddygiad difrifol, ac mae'n bosibl y cymerir camau disgyblu ar unwaith.

## 9. RHAGOR O WYBODAETH – CYMORTH I YSMYGWYR

Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan Iechyd a Diogelwch i staff sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu. Mae cyngor i fyfyrwyr ar gael trwy Wasanaethau Myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr ac o'r Feddygfa sydd wedi'i chomisiynu gan y Brifysgol.

## 10. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ni ddylai'r datganiad polisi hwn a'i ganllaw cysylltiedig gael unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw unigolyn sydd â nodwedd warchodedig. Bydd pob man ysmygu yn hygyrch.

## 11. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Iechyd a Diogelwch gynnal archwiliadau neu adolygiadau achlysurol i asesu effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â'r Polisi hwn.

Rhaid i'r Colegau / Gwasanaethau Proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y Polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**